

Y System Rheoli Amgylcheddol 8.1.11 Gweithdrefn Dydd Mercher Gwastraff

Cyhoeddwyd: Awst 2018

Awdur:	Rhia Cullen
Cymeradwywyd gan:	Fiona Abbott
Dyddiad Adolygu:	01/07/2022
Cyf Cymal:	Eco-gampws ac ISO14001(2015): 8.1.11
PEIDIWCH AG ARGRAFFU'R DDOG FEN HON ONI BAI FOD HYN YN ANGENRHEIDIOL	



8.1.11 Dydd Mercher Gwastraff

1 Diben

Nod y ddogfen hon yw dangos sut mae'r Brifysgol yn hwyluso clirio swyddfeydd ar 'Ddydd Mercher Gwastraff'.

2 Cyfrifoldebau

Y Tîm Cynaliadwyedd	Mae'r Tîm Cynaliadwyedd yn gyfrifol am drefnu a hwyluso digwyddiadau Dydd Mercher Gwastraff.
Yr holl staff	Mae staff yn gyfrifol am gydymffurfio â'r weithdrefn er mwyn cynorthwyo wrth aildefnyddio ac ailgylchu eitemau gan gynnwys gwahanu eitemau o wastraff.

3 Y Broses

Mae'r Tîm Cynaliadwyedd yn gallu trefnu cymorth clirio swyddfa ar gais, ar y cyd â chontractiwr gwastraff y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys mynd â gwastraff swyddfa, ei ailgylchu neu gael gwared arno, fel rhan o broses cael gwared ar ddeunyddiau diangen, symud swyddfa neu cyn gweddnewid y lle gweithio.

Mae'r Brifysgol yn ceisio aildefnyddio ac ailgylchu cymaint â phosib yn ystod y digwyddiadau hyn, er mwyn prynu llai o eitemau newydd, aildefnyddio ac ailgylchu offer y gellir eu defnyddio, lleihau costau cael gwared ar wastraff, lleihau cyfanswm y gwastraff mae'r Brifysgol yn ei gynhyrchu ac yn ei anfon i adennill ynni, yn ogystal â lleihau ei hól troed carbon.

Mae'n ofynnol i holl aelodau staff y Brifysgol gydymffurfio â'r Polisi Cynaliadwyedd, sy'n ymrwmo'r Brifysgol i leihau gwastraff a gynhyrchir a'r gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi drwy aildefnyddio ac ailgylchu lle bynnag y bo modd.

Mae'n rhaid i staff sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau clirio sicrhau bod yr eitemau cywir yn cael eu gosod yn y cynhwysydd priodol (a fydd wedi'i labelu), gan ddefnyddio sachau os nodir bod hyn yn ofynnol. Ni ddylid gadael eitemau'n rhydd yn y coridorau. Mae'n rhaid i staff ddiolli eitemau'n ofalus er mwyn peidio â halogi llifoedd gwastraff gan y bydd hyn yn amharu ar gyfraddau ailgylchu'r eitemau dan sylw.

Mae'n rhaid rhoi o leiaf 20 niwrnod gwaith o rybudd i'r Tîm Cynaliadwyedd wrth wneud cais am ddigwyddiad clirio swyddfa, er mwyn sicrhau bod modd darparu adnoddau staff, caetsys, biniau a sachau digonol.

Dilynwch y cyfarwyddiadau hyn wrth wneud cais am ddigwyddiad clirio swyddfa:

- Anfonwch gais i estates-waste@abertawe.ac.uk gan roi o leiaf 20 niwrnod gwaith o rybudd. Rhowch enw'r prif berson a fydd yn cydlynu'r broses cyn y digwyddiad clirio, yn ystod y digwyddiad ac ar ei ôl. Rhowch gôd cost (manylion pellach isod).
- Glynwch wrth y 'Canllaw i Lifoedd Gwastraff' (gweler Atodiad 1) yn y nodyn cyfarwyddyd hwn. Rhaid dilyn y canllawiau hyn er mwyn uchafu cyfran y gwastraff sy'n cael ei hailgylchu.
- Rhaid cwblhau ffurflen WEEE i gael gwared ar unrhyw eitemau trydanol. Rhaid glanhau unrhyw oergelloedd swyddfa yn gyntaf.
- Ni chaniateir cynnwys unrhyw sylweddau neu gyfarpar cemegol neu beryglus dan unrhyw amgylchiadau.

Pan fydd cais wedi'i dderbyn, bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod gofynion o ran llifoedd gwastraff, lleoliad a dyddiadau posib. Mae'n bosib y bydd angen cyfarfod gyda'r person sy'n gwneud y cais.

3.1 Llifoedd Gwastraff a Thaliadau

Os oes angen cael gwared ar nifer sylweddol o gelfi, sylwer y gellir codir tâl i adennill costau'r contractiwr oherwydd efallai y bydd angen rhoi'r gwaith i brif contractiwr y Brifysgol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y nodyn arweiniol hwn, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk

4 Effeithiau a Chamau Gweithredu yn sgîl Diffyg Cydymffurfiaeth

Gall methu cydymffurfio â'r weithdrefn hon arwain at y canlynol:

- Diffyg cydymffurfiaeth â gofynion EcoCampus a safon ISO 14001:2015.

Mae peidio â dilyn y weithdrefn hon yn cael ei drafod yng ngweithdrefn **10.1 Diffyg Cydymffurfiaeth a Chamau Cywirol**

5 Rheoli Fersiynau

Dyddiad	Fersiwn	Diweddarau
31/08/2018	1	Dogfen newydd
01/07/2021	2	Cael gwared ar destun a'r tabl o adran 3.1